

**ADRODDIAD RHEOLWR Y GWASANAETHAU GWEINYDDOL A  
DEMOCRATAIDD**

---

**PWNC:**

**SAFONAU'R GYMRAEG: ADRODDIAD BLYNYDDOL**

Ar y 30<sup>ain</sup> o Fedi 2015, cyhoeddodd y Comisiynydd Iaith Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio yn nodi Safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy wrth gyflawni ei fusnes, a'r dyddiadau y mae'r Awdurdod yn gorfod cydymffurfio â'r Safonau.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Adroddiad Blynyddol erbyn y 30<sup>ain</sup> o Fehefin 2017, yn unol â Safonau 158, 164 a 170 o'r Hysbysiad Cydymffurfio, ac mae copi o'r adroddiad hwnnw wedi'i atodi.

**ARGYMHELLIAD:**

**Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol fel cyflwyniad yr Awdurdod i'r Comisiynydd Iaith.**

**Papurau Cefndir:**

Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd i'r Awdurdod ar y 23<sup>ain</sup> o Ionawr 2017

*(Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Janet Evans, Rheolwr y Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd ar estyniad 4834, neu drwy e-bostio [janete@arfordirpenfro.org.uk](mailto:janete@arfordirpenfro.org.uk))*

**AWDURDOD PARC  
CENEDLAETHOL ARFORDIR  
PENFRO**



**ADRODDIAD MONITRO  
BLYNYDDOL  
SAFONAU'R GYMRAEG  
Ebrill 2016 – Mawrth 2017**

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd. Gallwn ddarparu'r adroddiad hwn ar ffurfiau eraill dim ond ichi ofyn. Cysylltwch â:

Y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Parc Llanion

Doc Penfro

SA72 6DY

E-bost: [janete@arfordirpenfro.org.uk](mailto:janete@arfordirpenfro.org.uk)

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi dyletswydd ar yr holl awdurdodau lleol ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol yng Nghymru, ynghyd â Gweinidogion Cymru, i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gwbl ymrwymedig i'r egwyddor o ganiatáu i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu hiaith ym mhob agwedd ar eu bywydau ac mae'n cydnabod ei gyfrifoldeb i hybu a hwyluso'r defnydd ohoni.

Wrth gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, nod yr Awdurdod yw galluogi ein cwsmeriaid i ddefnyddio'r iaith (Cymraeg neu Saesneg) y maent fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio. Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau a bennwyd o dan y Mesur. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei fod wedi gwneud cynnydd ond bod gwelliannau i'w gwneud o hyd.

## 1. RHAGAIR

- 1.1 Golyga Safonau'r Gymraeg na ddylai Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau beunyddiol.
- 1.2 Yn fras, mae pum maes o Safonau:
- **Cyflenwi gwasanaethau**, sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau, caffael, a hunaniaeth gorfforaethol
  - **Llunio polisi**, sy'n canolbwyntio ar gynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi, a chymryd camau cadarnhaol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg
  - **Gweithredol**, sy'n canolbwyntio ar hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o ran staff yr Awdurdod a gweithgareddau mewnol
  - **Hybu**, sy'n canolbwyntio ar hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach
  - **Cadw cofnodion**, sy'n canolbwyntio ar gadw cofnodion ynghylch sut y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau a bennwyd.
- 1.2 Gosodwyd 170 o is-Safonau ar yr Awdurdod, a phennwyd dyddiad gweithredu cychwynnol o 30 Mawrth 2016. Mae rhestr lawn o'r Safonau y mae gofyn i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy ar ein gwefan ac ar Parcnet (ein mewnwrwyd ar gyfer staff ac Aelodau).
- 1.3 Mae Safonau 158, 164 a 170 yn pennu bod yn rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Dyma'r ail adroddiad blynyddol ers cyflwyno'r Safonau, ac mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

## 2. SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU (SAFONAU 1 – 87)

I sicrhau bod yr holl staff yn gwybod am y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, rydym wedi dosbarthu canllawiau cryno ar gyflawni gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan yr holl Reolwyr ac Arweinwyr Timau ddyletswydd i sicrhau bod eu gwasanaethau yn cydymffurfio â'r gofynion.

### 2.1 **Gohebiaeth (Safonau 1 – 7)**

- 2.1.1 Rhoddwyd canllawiau penodol i'r staff ar gyfer ymdrin â gohebiaeth, boed ar bapur neu'n electronig.
- 2.1.2 Mae datganiad safonol wedi'i gynnwys ar bapur pennawd yr Awdurdod a rhoddwyd cyfarwyddyd i staff i'w gynnwys ar negeseon e-bost.
- 2.1.3 Mae gwaith yn cael ei wneud ar gronfa ddata i gofnodi dewis iaith defnyddwyr y gwasanaethau.

## 2.2 **Ateb y ffôn (Safonau 8 – 22)**

Rhodddwyd canllawiau penodol i'r staff ar gyfer ymdrin â galwadau ffôn.

## 2.3 **Cyfarfodydd Cyhoeddus (Safonau 24 – 36)**

Cyhoeddwyd canllawiau penodol ynghylch trefnu cyfarfodydd, sy'n atgoffa'r holl staff y dylid dosbarthu gwahoddiadau ddwyieithog (oni bai bod dewis iaith pob cynrychiolydd eisoes yn hysbys), bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael (os oes angen), a bod yn rhaid i'r holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, deunydd ysgrifenedig ac ati y bydd yr Awdurdod yn eu llunio ar gyfer y cyfarfod fod yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

## 2.4 **Dogfennau, Ffurflenni a Deunydd Cyhoeddusrwydd (Safonau 37 – 51)**

2.4.1 Mae'r holl ddatganiadau i'r wasg wedi cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog a bydd hyn yn parhau, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

2.4.2 Mae holl daflenni gwybodaeth yr Awdurdod yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, neu – os ydynt yn cael eu cyhoeddi ar wahân – gyda brawddeg yn dweud bod y daflen hefyd ar gael yn yr iaith arall.

2.4.3 Os caiff dogfennau cyhoeddus eu hargraffu ar wahân, mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran ffont, maint, fformat ac ati.

2.4.4 Mae agendâu a chofnodion yr Awdurdod yn cael eu llunio'n ddwyieithog yn unol â Safon 41(a), ac mae'r holl ddenyddiau ar gyfer cynadleddau neu seminarau yn cael eu llunio'n ddwyieithog yn unol â Safon 41(b).

## 2.5 **Y wefan, apiau a'r cyfryngau cymdeithasol (Safonau 52 a 55 – 59)**

2.5.1 Gall defnyddwyr gwefan yr Awdurdod ddewis yr iaith a ffefrir ganddynt drwy glicio botwm. Rydym yn y broses o sicrhau bod yr holl dudalennau yn cyfateb yn llawn yn y ddwy iaith.

Nifer y trawiadau ar y wefan Gymraeg rhwng:

1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017: 12,565

1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016: 10,926

Nifer y trawiadau ar y wefan Saesneg rhwng:

1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017: 1,071,152

1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016: 1,114,593

2.5.2 Mae'r holl apiau a lunnir gan yr Awdurdod yn ddwyieithog.

2.5.3 Mae cyfrifon Facebook a Twitter yr Awdurdod ar gael yn ddwyieithog.

## 2.6 **Peiriannau hunan-wasanaeth (Safon 60)**

2.6.1 Mae'r holl beiriannau talu ac arddangos yn y meysydd parcio yn ddwyieithog.

## 2.7 **Arwyddion a Hysbysiadau (Safonau 61 – 63 a 69 – 70)**

- 2.7.1 Mae arwyddion yr Awdurdod yn ddwyieithog, er nad y Gymraeg sydd flaenaf bob tro o reidrwydd. Pan gaiff yr arwyddion hyn eu hadnewyddu, byddant yn cydymffurfio â'r Safonau yn yr ystyr y bydd y Gymraeg yn flaenaf; fodd bynnag, bydd unrhyw arwyddion newydd a gaiff eu codi yn cydymffurfio â'r Safonau perthnasol.
- 2.7.2 Mae'r holl Hysbysiadau swyddogol yn cael eu cyhoeddi neu eu harddangos yn ddwyieithog. Os caiff Hysbysiadau swyddogol eu hargraffu ar wahân, caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal o ran ffont, maint, fformat ac ati.

## 2.8 **Gwasanaethau dderbynfa (Safonau 64 – 70)**

- 2.8.1 O'r pum aelod o staff (tri llawn amser cyfatebol) ym mhrif dderbynfa'r Awdurdod, mae un yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl ac mae dau wedi bod ar gyrsiau Cymraeg sylfaenol. Os na all y staff ddelio â galwad eu hunain, maent yn cyfeirio'r galwr at gydweithiwr Cymraeg yn ddi-oed.
- 2.8.2 Mae gan staff y dderbynfa yn Oriol y Parc, Castell Henllys, Canolfan Ymwelwyr Trefdraeth a Chastell Caeriu sgiliau iaith Gymraeg a gallant gynnig gwasanaeth yn Gymraeg o'r dechrau'n deg.
- 2.8.3 Mae posteri 'Iaith Gwaith' i'w weld ym mhob un o dderbynfeydd yr Awdurdod, ac mae staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo cortyn neu fathodyn i hysbysu'r cyhoedd fod gwasanaeth Cymraeg ar gael.

## 2.9 **Grantiau (Safonau 71 – 75)**

- 2.9.1 Mae'r Awdurdod yn gweinyddu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Mae'r nodiadau canllaw a'r ffurflen gais ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chaiff gohebiaeth ei hateb yn newis iaith yr ymgeisydd. Mae unrhyw ddeunydd hyrwyddo ar gael naill ai'n ddwyieithog neu yn Gymraeg ac yn Saesneg a chaiff y ddwy iaith eu trin yn gyfartal o ran ffont, maint, fformat ac ati.
- 2.9.2 Mae'r polisi grantiau wedi'i ddiwygio i gynnwys gofyniad i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r meini prawf ar gyfer dyfarnu grant.

## 2.10 **Tendrau (Safonau 76 – 80)**

Mae gwahoddiadau i denro yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar wefan GwerthwchiGymru, a chynhwysir y geiriad a ganlyn: "Croesewir tendrau yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ni ymdrinnir â thendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg".

## 2.11 **Hunaniaeth gorfforaethol (Safon 83)**

Mae hunaniaeth gorfforaethol yr Awdurdod wedi bod yn ddwyieithog ers iddo gael ei sefydlu. Mae'r holl bapur pennawd, cardiau busnes a chardiau adnabod yn ddwyieithog, gan gynnwys ei arwyddion a'i gerbydau.

## 2.12 **Cyrsiau addysg (Safonau 84 ac 86)**

Nid yw'r Awdurdod yn cynnal cyrsiau addysg fel y cyfryw. Mae'r rhaglen gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer 2016/17 yn darparu

gweithgareddau/digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae pob ysgol/grŵp sy'n cymryd rhan yn gallu gwneud hynny yn eu dewis iaith.

### 3. SAFONAU LLUNIO POLISI'AU (SAFONAU 88 – 97)

- 3.1 **Llunio polisiau, eu diwygio neu eu hadolygu (Safonau 88 – 90)**  
Ni luniwyd unrhyw bolisiau newydd yn ystod y cyfnod dan sylw. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol a chaiff asesiadau effaith eu cynnal fel mater o drefn yn ystod y broses honno.
- 3.2 **Ymgynghori â'r cyhoedd (Safonau 91 – 93)**  
Yn ystod y cyfnod dan sylw, ymgynghorodd yr Awdurdod ar ei adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Cytundeb Cyflawni. Cyhoeddwyd y ddwy ddogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg, ynghyd â'r holiaduron ymgynghori perthnasol.
- 3.3 **Ymchwilio i bolisi (Safonau 95 – 97)**  
Ni chomisiynwyd unrhyw ymchwil yn ystod y cyfnod dan sylw.

### 4. SAFONAU GWEITHREDOL (SAFONAU 98 – 144)

- 4.1 **Dogfennau yn ymwneud â chyflogaeth (Safonau 99 – 104)**
- 4.1.1 Ar 31 Mawrth 2017, roedd yr Awdurdod yn cyflogi 150 o staff. O'r rhai a lenwodd holiadur sgiliau iaith, roedd 21% ohonynt wedi dweud eu bod yn rhugl, ac roedd 17% wedi dweud bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg.
- 4.1.2 Gofynnwyd i'r holl staff a ydynt yn awyddus i gael dogfennau sy'n ymwneud â'u gwaith yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- 4.2 **Polisiau adnoddau dynol (Safonau 105 – 111)**  
Mae'r holl bolisiau staffio y mae'r Safonau'n ymwneud â hwy ar gael yn ddwyieithog.
- 4.3 **Gweithdrefnau cwyno/disgyblu (Safonau 112 – 119)**  
Mae'r staff yn gwybod y gallant gwyno a/neu ymateb i'r broses ddisgyblu/cwynion yn eu dewis iaith.
- 4.4 **Meddalwedd iaith Gymraeg (Safon 120)**  
Mae meddalwedd iaith Gymraeg, gan gynnwys rhaglenni *Cysgeir* a *Cysill* ar gael i'r holl staff.
- 4.5 **Y fewnrwyd (Safonau 122 – 126)**  
Mae gwaith i'w wneud ar ddarparu mewnrwyd dwyieithog.
- 4.6 **Asesu sgiliau iaith Gymraeg y staff (Safon 127)**  
Gofynnwyd i'r holl staff nodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar system anoddau dynol PoblyParc yr Awdurdod.



4.7 **Cyrsiau iaith Gymraeg (Safonau 130 – 133)**

Cynhelir adolygiadau o berfformiad gyda'r holl staff, lle mae'r angen (neu'r cyfle) i ddysgu Cymraeg yn cael ei nodi. Cefnogir unrhyw aelod o staff sy'n awyddus i fynychu cwrs iaith Gymraeg yn ystod oriau gwaith.

4.8 **Llofnod neu logo e-bost (Safonau 134 – 135)**

Rhodddwyd cyfarwyddyd i'r holl staff ynghylch llofnodion e-bost a negeseuon allan o'r swyddfa.

4.9 **Asesu gofynion ieithyddol ar gyfer swyddi gwag (Safon 136)**

Pan fydd disgrifiad swydd yn cael ei chreu neu ei diwygio, mae angen i reolwyr asesu gofynion ieithyddol y swydd gan ddefnyddio'r fframwaith iaith a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod. Defnyddir y ffactorau a ganlyn, ynghyd â'r fframwaith iaith, i bennu lefel y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y swydd:

- (a) A fydd deiliad y swydd yn gweithio mewn maes lle mae angen darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg?
- (b) A yw'r Awdurdod yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn yn Gymraeg ar hyn o bryd?

Os mai 'ydy' yw'r ateb i (b), rhaid i'r rheolwr esbonio sut y mae'r Awdurdod yn darparu'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Os mai 'ydy' yw'r ateb i (a) a 'nac ydy' yw'r ateb i (b), rhaid hysbysebu'r swydd yn un lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, a dylid nodi lefel y sgiliau iaith sydd eu hangen.

Nodir y gofynion hyn ar y ffurflen Cais i Lenwi Swydd a gyflwynir i Dîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod i'w chymeradwyo.

4.10 **Hysbysebu swyddi (Safonau 136A, 137 a 137B)**

Caiff pob swydd wag ei hysbysebu'n ddwyieithog. Mae gwefan yr Awdurdod a'r ffurflen gais i'w lawrlwytho yn nodi y caiff ymgeisydd gyflwyno'i gais yn Gymraeg neu yn Saesneg; caiff pob cais ei drin yn gyfartal.

4.11 **Ffurflenni ymgeisio (Safonau 137A – 140)**

Mae'r ffurflenni ymgeisio ar gael yn ddwyieithog a chaiff ymgeiswyr gynnig am unrhyw swydd yn eu dewis iaith. Mae'r ffurflen yn gofyn i ymgeiswyr nodi a ydynt am ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad. Bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau bod o leiaf un siaradwr Cymraeg ar y panel cyfweld, ond os nad yw hyn yn bosibl, darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os yw'r ymgeisydd wedi nodi ei fod yn awyddus i siarad Cymrag yn y cyfweiliad.

4.12 **Arwyddion a godir yn y gweithle (Safonau 141 – 143)**

Polisi'r Awdurdod yw bod pob arwydd yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn y fath fodd fel ei bod yn debygol o gael ei darllen gyntaf. Mae rheolwyr derbynfeydd wedi cael canllawiau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau hyn.

4.13 **Cyhoeddiadau ar gyfarpar sain yn y gweithle**

Nid yw'r Awdurdod yn defnyddio cyfarpar sain yn y gweithle.

## 5. SAFONAU HYBU (SAFONAU 145 – 146)

### 5.1 Strategaeth bum mlynedd ar gyfer y Gymraeg

Ar 29 Mawrth 2017 cytunodd yr Awdurdod ar strategaeth bum mlynedd ddrafft ar gyfer y Gymraeg at ddibenion ymgynghori. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad, ynghyd â strategaeth ddrafft derfynol yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod ar 7 Awst i'w mabwysiadu.

## 6. SAFONAU CADW COFNODION (SAFONAU 147 – 154)

### 6.1 Cwynion a gafwyd (Safonau 147 – 149)

Cafwyd un gŵyn yn ystod y cyfnod dan sylw ac ymdriniwyd â hi yn unol â phroses Safonau Gwasanaeth yr Awdurdod. Roedd y gŵyn yn ymwneud â diffyg tocynnau parcio dwyieithog ar Draeth Trefdraeth. Peiriant tocynnau â llaw oedd y peiriant dan sylw, ac yn anffodus ni all ddaparu tocynnau dwyieithog. Mae'n edrych yn debyg bod yr achwynydd yn fodlon â'n hymateb gan na chysylltodd â'r Awdurdod wedyn.

### 6.2 Sgiliau iaith Gymraeg (Safon 151)

Gofynnwyd i'r holl staff nodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar system anodau dynol PoblyParc yr Awdurdod. O'r rhai a asesodd eu sgiliau eu hunain ar sail y fframwaith sgiliau iaith a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod, dywedodd 32 eu bod yn rhugl yn y Gymraeg, a dywedodd 25 fod ganddynt ryw faint o sgiliau iaith Gymraeg,

### 6.3 Cyrsiau hyfforddi (Safonau 152)

Ni chynigiwyd unrhyw gyrsiau Cymraeg yn ystod y cyfnod dan sylw.

### 6.4 Asesu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi newydd neu wag (Safon 153)

Rhaid i bob cais i lenwi swyddi newydd neu wag gael ei ystyried gan Dîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod (gweler 4.9 uchod). Caiff yr ystadegau eu cofnodi ar system rheoli perfformiad Ffynnon a'u hadrodd i'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol.

### 6.5 Categoreiddio swyddi newydd neu wag (Safon 154)

Hysbysebwyd 22 swydd yn ystod y cyfnod dan sylw. Categoreiddiwyd 11 yn swyddi lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol, 8 gyda'r Gymraeg yn ddymunol, ac 1 gyda'r amod fod yr ymgeisydd llwyddiannus yn dysgu Cymraeg cyn pen cyfnod penodol, a hysbysebwyd 2 swydd heb unrhyw anghenion Cymraeg gan eu bod yn swyddi byrdymor, dros dro.

## 7. SAFONAU ATODOL (SAFONAU 155 – 175)

7.1 Mae copi o'r Hysbysiad Cydymffurfio â gyflwynwyd i'r Awdurdod gan Gomisiynydd y Gymraeg i'w weld ar wefan yr Awdurdod.

- 7.2 Mae dogfen “Safonau’r Gymraeg: Sylwadau a Chwynion” ar gael ar wefan yr Awdurdod. Yn y ddogfen honno, rhestrir y Safonau y mae’n rhaid i’r Awdurdod gydymffurfio â hwy, ynghyd â’r broses a ddilynir os bydd rhywun yn gwneud cwyn i’r Awdurdod am fethu yn y ddyletswydd honno.

## **8. MONITRO CYDYMFFURFIAETH**

- 8.1 Prif Weithredwr yr Awdurdod, yn y pen draw, sy’n gyfrifol am weithredu a monitro Safonau’r Gymraeg. Fodd bynnag, mae unrhyw weithredu sy’n ymwneud â’r Safonau o ddydd i ddydd wedi’i ddirprwyo i’r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd. Hefyd, mae pob Cyfarwyddwr, Pennaeth Gwasanaeth ac Arweinydd Tîm yn gwbl ymwybodol o oblygiadau’r Safonau.
- 8.2 Caiff yr Adroddiad Monitro Blynyddol ei gyflwyno i’r Awdurdod i’w gymeradwyo cyn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.